| | | |
|---|---|---|
| Enw'r Polisi: | Polisi Galluogi Perfformiad | Rhif y Polisi: P1718 - 1078 |
| Perchennog y Polisi: | Charlie James, Arweinydd Trawsnewidiol: Perfformiad, Adnoddau Dynol | |
| Dyddiad Cyhoeddi/Adolygu Diwethaf: Awst 2023 | Dyddiad Adolygu Nesaf: Awst 2024 | |
| Deddfwriaeth Berthnasol / Arweiniad ACAS os yw'n berthnasol: | Amherthnasol | |
| Dogfennau sy'n cael eu disodli | Amherthnasol | |

**Datganiad Polisi:**

**Diben:**
Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i ddiwylliant o Alluogi Perfformiad sy'n anelu at gefnogi a galluogi gweithwyr i wireddu eu potensial, llwyddo yn eu swyddi a thrwy hynny gyflawni prif themâu strategol y Brifysgol.

Galluogi Perfformiad yw amrywiaeth o ddulliau cysylltiedig a fydd yn:

- Egluro'r hyn a ddisgwylir gan yr unigolyn a safon y perfformiad sy'n ofynnol.
- Sicrhau bod yr unigolyn yn deall yn iawn yr amcanion sefydliadol allweddol a'i gyfraniad ef i'w cyflawni.
- Darparu cymorth, adborth, hyfforddiant a sgiliau perthnasol fel y gall yr unigolyn berfformio i'r eithaf.
- Dymchwel rhwystrau sy'n amharu ar berfformiad unigolyn
- Dangos bod gweithwyr sy'n perfformio'n dda yn cael eu cydnabod a bod y rhai sy'n tanberfformio yn cael eu herio

Cefnogir y diwylliant Galluogi Perfformiad gan system Adolygiad Datblygiad Proffesiynol ar-lein, a'r disgwyl yw y bydd pob aelod o staff yn cael dau gyfarfod Adolygiad Proffesiynol bob blwyddyn.

- Mae'r adolygiad blynyddol, yn gyfle ffurfiol i'r aelod staff a'i reolwr llinell fel ei gilydd fyfyrio ar yr hyn a gyflawnwyd yn ystod y 12 mis blaenorol, ac i ba safon, ac i edrych ymlaen a gwneud cynlluniau ar gyfer y flwyddyn i ddod. Dylai'r adolygiad ganolbwyntio ar nodi'r disgwyliadau sydd wedi'u bodloni neu y rhagorwyd arnynt, a herio'r unigolyn am y disgwyliadau nas cyflawnwyd.
- Bydd adolygiad interim yn ffurfioli adborth rheolaidd mwy anffurfiol, a sesiynau hyfforddi.

Lle bynnag y bo modd, defnyddir Gwybodaeth Reoli o fewn y broses Adolygiad Datblygu Proffesiynol i ddarparu adborth unigol ar berfformiad.

Bydd Adolygiadau Datblygiad Proffesiynol yn dilyn yn naturiol o Sefydlu a'r Cyfnod Prawf, a chefnogir y broses ddyrchafu gan yr Adolygiad Proffesiynol.

**Cwmpas**
Mae'r Polisi Galluogi Perfformiad yn berthnasol i'r holl weithwyr.
Disgwylir i'r holl aelodau staff sydd wedi cwblhau eu Cyfnod Prawf gymryd rhan mewn Adolygiad Datblygiad Proffesiynol.

**Diffiniadau o dermau Adnoddau Dynol a ddefnyddir yn y polisi hwn:**

**Gweithdrefnau Cefnogi/Dogfennau Cyfarwyddyd/Codau Ymarfer gyda Rhifau polisi a hyperddolenni:**

Canllawiau Polisi Galluogi Perfformiad